

Ordinhad 18:

Cyflwyno Hysbysiadau a Dogfennau

Corff Cymeradwyo:	Y Cyngor
Dyddiad Cymeradwyo:	24 Ebrill, 2020
Perchennog y Polisi:	Ysgrifennydd y Brifysgol
Swyddog Polisi:	Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio
Statws y Polisi:	Newydd
Fersiwn:	1.0
Dyddiad adolygu:	Ebrill 2023

Ordinhad 18: Cyflwyno Hysbysiadau a Dogfennau

1. Gall unrhyw hysbysiad neu ddogfen sy'n ofynnol gan neu at ddibenion y Siarter neu'r Ordinhadau gael eu rhoi neu eu hanfon at unigolyn naill ai'n bersonol, trwy ddulliau electronig neu trwy eu hanfon trwy'r post i'r unigolyn i'r cyfeiriad olaf a gofrestrwyd gan y Brifysgol.
2. Cofnodir anfon unrhyw hysbysiad neu ddogfen o'r fath gan y swyddfa briodol. Ni fydd methu â derbyn hysbysiad neu ddogfen o'r fath yn annilysu unrhyw achos, cyfarfodydd neu ymrwymadau eraill y mae'r hysbysiad neu'r ddogfen honno'n ymwneud â hwy.
3. Rhaid i hysbysiadau sy'n ymwneud â therfynu penodiad gael eu rhoi neu eu hanfon naill ai'n bersonol a chael llofnod eu bod wedi eu derbyn neu drwy bost cofrestredig neu bost cofnodedig.
4. Pan anfonir hysbysiad neu ddogfen arall trwy'r post, bernir bod ei gyflwyno wedi'i weithredu'n briodol trwy roi'r cyfeiriad iawn (gweler 1 uchod) a phostio llythyr sy'n cynnwys yr hysbysiad neu ddogfen arall, a bernir ei fod wedi'i weithredu ar yr amser y byddai'r llythyr wedi ei ddanfoni yn ôl y drefn arferol.